# SL(5)683 – Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Dibenion Maethol Penodol a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth ym maes hylendid a diogelwch bwyd anifeiliaid er mwyn darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi Rheoliad y Comisiwn (EU) 2020/354 sy'n sefydlu rhestr o'r defnydd y bwriedir ei wneud o fwyd anifeiliaid a fwriedir at ddibenion maethol penodol, ac yn diddymu Cyfarwyddeb 2008/38/EC, a fydd yn dod i rym ar 25 Rhagfyr 2020 ochr yn ochr â phan ddaw'r offeryn hwn i rym.

Yn benodol, mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Cyfansoddiad, Marchnata a Defnydd) (Cymru) 2016 a Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid, Samplu etc. a Gorfodi) (Cymru) 2016, sy'n darparu ar gyfer gorfodi yng Nghymru (gan gynnwys troseddau) ddeddfwriaeth yr UE yn y maes hwn. Mae'r offeryn hwn yn cyflwyno darpariaethau ar gyfer gorfodi Rheoliad (UE) 2020/354 yn lle'r darpariaethau cyfredol sy'n gweithredu Cyfarwyddeb 2008/38/EC, a ddiddymir o 25 Rhagfyr 2020.

Mae'r offeryn hwn yn ymdrin â phob busnes bwyd anifeiliaid sy'n cynhyrchu, cyflenwi neu'n defnyddio bwyd anifeiliaid, at ddibenion maethol penodol.

## Gweithdrefn

Negyddol

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Pwyllgor yn nodi'r sylwadau yn y Memorandwm Esboniadol ynghylch asesiad yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) am beidio â chynhyrchu Asesiad Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

*"Mae'r ASB o'r farn y bydd effaith yr offeryn hwn ar fusnesau ac awdurdodau gorfodi yn fach iawn. Nid yw'r ASB wedi nodi unrhyw newid sylweddol i'r gofynion ar gyfer busnesau, nac yn y dull rheoleiddio a gymerir. Mae Rheoliad (UE) 2020/354 yn cynnwys mesurau pontio a fydd yn caniatáu ar gyfer defnyddio stociau presennol o gynnyrch a labelwyd cyn 25 Mawrth 2022 o dan y rheolau presennol. Felly, nid oes asesiad effaith wedi'i gynhyrchu."*

## Y goblygiadau yn sgîl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Bydd y Rheoliadau hyn yn rhan o gyfraith yr UE a ddargedwir ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (h.y. diwedd y cyfnod gweithredu, ar 31 Rhagfyr 2020).

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**7 Rhagfyr 2020**